

**DEDDF RHEOLEIDDIO TRAFFIG FFYRDD 1984
HYSBYSIAD O WNEUD GORCHYMYN PARHAOL**

**CYNGOR SIR FYNWY
GORCHYMYN CYFUNO RHEOLIADAU TRAFFIG, TERFYNAU CYFLYMDER A PHARCIO
CYNGOR SIR FYNWY 2019
(GORCHYMYN DIWYGIO RHIF 18) 2026**

**DARPARU GORCHYMYN RHEOLEIDDIO TRAFFIG O FEWN CYMUNEDAU
AMRYWIOL YN SIR FYNWY**

RHODDIR HYSBYSIAD DRWY HYN fod Cyngor Sir Fynwy o Neuadd y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA ("y Cyngor") wedi gwneud Gorchymyn Rheoleiddio Traffig Ffyrdd fel a ganlyn:

EFFAITH Y GORCHYMYN FYDD:

- Cyflwyno Dim Llwytho ar Stryd y Brenin, Y Fenni. (8fed Ebrill 2026)
- Cyflwyno Lle Parcio i Bobl Anabl yn 57 Heol Thornwell, Cas-gwent. (8fed Ebrill 2026)
- Cyflwyno Cyfyngiad Pwysau 7.5T ar Heol Henffordd, Trefynwy. (8fed Ebrill 2026)
- Cyflwyno Lle Parcio i Bobl Anabl ar Stryd Fawr Rhaglan. (8fed Ebrill 2026)
- Cyflwyno Bae Llwytho yn Unig ar Stryd Fawr Rhaglan. (8fed Ebrill 2026)
- Cyflwyno Gwaharddiad Aros ar Unrhyw Adeg ar Lôn Vauxhall, Cas-gwent. (25ain Chwefror 2026)
- Cyflwyno Gwaharddiad Aros ar Unrhyw Adeg ar Heol y Goeden Onnen, Caerwent. (25ain Chwefror 2026)
- Cyflwyno Gwaharddiad Aros ar Unrhyw Adeg ar Lôn yr Ysgol, Caerwent. (25ain Chwefror 2026)
- Cyflwyno Gwaharddiad Aros ar Unrhyw Adeg ar The Plantation, Gwndy. (25ain Chwefror 2026)
- Cyflwyno Gwaharddiad Aros ar Unrhyw Adeg ar Ffordd Victoria, Gwndy. (25ain Chwefror 2026)
- Cyflwyno Gwaharddiad Aros ar Unrhyw Adeg ar Heol Tudor, Wyesham. (25ain Chwefror 2026)
- Cyflwyno Gwaharddiad Aros ar Unrhyw Adeg ar Stryd Fawr Rhaglan (25ain Chwefror 2026)
- Cyflwyno Gwaharddiad Aros ar Unrhyw Adeg ar B4245 Heol Casnewydd (Allanfa Ogleddol y Gylchfan), Magwyr. (25ain Chwefror 2026)
- Cyflwyno Gwaharddiad Aros ar Unrhyw Adeg ar Gyffordd Heol Henffordd/Heol Grosvenor, Y Fenni. (25ain Chwefror 2026)
- Diddymu Gwaharddiad Aros â Chyfyngiad Amser ar Heol Merthyr, Y Fenni. (25ain Chwefror 2026)
- Cyflwyno Gwaharddiad Aros ar Unrhyw Adeg ar Heol Plas Derwen, Y Fenni. (25ain Chwefror 2026)
- Cyflwyno Gwaharddiad Aros ar Unrhyw Adeg ar Heol Rockwood, Cas-gwent. (25ain Chwefror 2026)
- Cyflwyno Gwaharddiad Aros a dirymu Parth Cyfyngedig ar Stryd Fawr/Stryd y Banc, Cas-gwent. (4ydd Chwefror 2026)
- Cyflwyno Gwaharddiad Aros ar Unrhyw Adeg ar Y Groes, Cil-y-coed. (4ydd Chwefror 2026)
- Dirymu adran o'r Gwaharddiad Aros ar Unrhyw Adeg ar Heol yr Eglwys, Cil-y-coed (4ydd Chwefror 2026)
- Dirymu adran o'r Gwaharddiad Aros ar Unrhyw Adeg ar The Back, Cas-gwent. (14eg Ionawr 2026)

O fewn yr ardaloedd a nodwyd ar y cynlluniau, y gellir eu gweld trwy apwyntiad yn Neuadd y Sir, Brynbuga neu ar-lein yn <http://www.monmouthshire.gov.uk/public-consultation-traffic>. Gellir cyrchu'r dudalen we hon hefyd trwy sganio'r cod QR isod.

Mae'r Gorchymynion a nodir uchod wedi'u hamserlennu i ddod i rym dros gyfnod ar y dyddiadau a nodir yn y cromfachau.

Os yw unrhyw berson yn dymuno cwestiynu dilysrwydd y Gorchymyn neu unrhyw un o'i ddarpariaethau ar y sail nad yw o fewn y pwerau a roddir gan y Ddeddf, neu nad yw unrhyw ofyniad o'r Ddeddf neu unrhyw offeryn a wneir o dan y Ddeddf wedi'i gydymffurfio, gall y person hwnnw, o fewn chwe wythnos o'r 13eg Ionawr 2026 (sef y dyddiad y gwnaed y Gorchymyn) wneud cais at y diben hwnnw i'r Uchel Lys.

Dyddiad: 14eg Ionawr 2026

**Carl Touhig
Pennaeth Gwasanaethau Cymdogaeth
Cyngor Sir Fynwy**

